

Lesley Griffiths AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion
Gwledig
Llywodraeth Cymru

19 Rhagfyr 2017

Annwyl Lesley

TB buchol

Cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ei ymchwiliad i TB buchol ym mis Mai 2017. Yn yr adroddiad hwnnw, cymeradwyodd y Pwyllgor ddull diwygiedig arfaethedig Llywodraeth Cymru, wedi'i osod o fewn fframwaith rhanbarthol newydd. Roeddem yn falch eich bod wedi derbyn 10 allan o 12 o'n hargymhellion, a'r 2 arall mewn egwyddor.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu eich datganiad ysgrifenedig ar 12 Rhagfyr, lle'r oeddech wedi cyfeirio at adroddiad y Pwyllgor a chyhoeddi targed cenedlaethol o ddileu TB buchol i Gymru. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at drafod hyn, ynghyd â'r cerrig milltir interim arfaethedig, gyda chi maes o law.

Yn ein cyfarfod ar 22 Tachwedd clywsom gyflwyniad gan Dr Gareth Enticott, Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio, Prifysgol Caerdydd, a ymgwymerodd â gwaith manwl ar y pwnc hwn ar ran Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad¹. O ganlyniad i hyn, cytunwyd y dylwn ysgrifennu atoch ynghylch nifer o faterion a gododd yn ein trafodaeth.

¹ Deallwn y bydd y Gwasanaeth Ymchwil yn cyhoeddi dwy ddogfen sy'n gysylltiedig â'r gwaith ymchwil hwn maes o law: 'TB Buchol yng Nghymru: llywodraethu a risg' a 'Goblygiadau Brexit ar gyfer TB Buchol yng Nghymru'.



Profion TB buchol

Yn ei adroddiad, roedd y Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru:

...gadw golwg ar y dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf am brofion TB buchol ac archwilio pob opsiwn ar gyfer cynnal profion effeithiol sy'n gymesur â'r risgiau a nodwyd. (Argymhelliad 4).

Cafwyd adroddiadau diweddar o brofion amgen yn cael eu treialu yn y DU, gan gynnwys treial o brawf newydd yn Nyfnaint. A ydych yn adolygu'r prawf hwn, ac a ydych yn ystyried treialu profion amgen (heblaw am y prawf gwaed SICCT a gama interfferon) fel mesur ychwanegol ar gyfer cefnogi'r syniad o ddileu TB buchol yng Nghymru?

O ran y mater hwn, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ystyriaeth a roddwyd gennych i p'un a oes digon o hyblygrwydd o fewn y gyfundrefn brofi bresennol. Er enghraifft, gellid bod cyfleoedd i ddefnyddio gwahanol brofion ar wahanol gamau o'r Rhaglen Ddileu. Byddai hyn yn cyd-fynd ag argymhelliad y Pwyllgor mewn perthynas â chyfundrefn sy'n gyfrannol â'r risgiau a nodwyd. Wrth gwrs, byddai hyn yn gofyn am waith ychwanegol i sicrhau bod ffermwyr yn deall yn llawn pam y gallai fod angen hyblygrwydd o'r fath a pham y gellid defnyddio gwahanol ddulliau, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

Mae risgiau iechyd a diogelwch yn codi o'r gyfundrefn brofi gyfredol, ac mae hynny'n wir bob amser wrth weithio'n agos gyda da byw. Pa drefniadau sydd ar waith i fonitro a chofnodi digwyddiadau iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â phrofi TB buchol mewn gwartheg? A roddwyd ystyriaeth i sut y gellir gwneud profion ar gyfer TB buchol yn fwy diogel i filfeddygon a ffermwyr?

Masnachu yn seiliedig ar risg



Yn ei adroddiad, dangosodd y Pwyllgor gefnogaeth i gynnig Llywodraeth Cymru i annog Prynu Gwybodus, a elwir hefyd yn Fasnachu yn seiliedig ar Risg. Roedd y Pwyllgor yn argymhell y canlynol:

... system fasnachu yn seiliedig ar risg gael ei chyflwyno'n wirfoddol i ddechrau yn y diwydiant a'r marchnadoedd da byw. Dylid adolygu'r system yn gyson ac, os bydd angen, dylid ei gwneud yn orfodol. (Argymhelliad 6).

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar am eglurhad ynghylch sut y byddwch yn asesu p'un a oes angen cynllun gorfodol a phryd. Pa amodau y credwch y bydd angen eu bodloni i fod angen dull gorfodol? Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael unrhyw wybodaeth bellach sydd gennych am effaith debygol system orfodol o ran Masnachu yn Seiliedig ar Risg, a sut y mae hynny'n cymharu â system wirfoddol. Byddem hefyd yn ddiolchgar o gael y wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae gweithgarwch o dan gynlluniau gwirfoddol presennol, megis yr adnodd mapio ibTB a CHeCS, yn cael eu monitro a'u hadrodd. Rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid grant yn 2015 i ganiatáu i farchnadoedd da byw uwchraddio cyfleusterau gwybodaeth. A oes gennych unrhyw gynlluniau i wneud hynny eto, neu ymgymryd â mentrau eraill sy'n gysylltiedig â'r farchnad sy'n annog gwerthwyr i ddangos gwybodaeth sy'n ymwneud â statws TB eu gwartheg sydd i'w gwerthu ac felly, yn helpu ffermwyr i ddeall y risg o wartheg y maent yn bwriadu eu prynu.

Yn olaf, pa ystyriaeth a roddwyd i drefniadau adrodd yng nghyd-destun fframwaith rhanbarthol y dull wedi'i adnewyddu? Megis adrodd ar symudiadau gwartheg 'perylus' ar lefel ranbarthol er mwyn helpu i hyrwyddo diwylliant o fioggiogelwch, neu flwyddyn heb TB buchol mewn Ardal Risg Uchel.

Llywodraethu

Gwnaeth y Pwyllgor nifer o argymhellion mewn perthynas â Llywodraethu yn ei adroddiad. Gall trefniadau llywodraethu da, megis cynnwys a chyfranogiad ffermwyr a milfeddygon wrth lunio polisi, fod yn effeithiol wrth gynyddu



cydymffurfiad, mae'n defnyddio arbenigedd y rhai sy'n gweithio yn y maes hwn o ddydd i ddydd ac yn y pen draw yn gallu annog arweinyddiaeth wrth reoli'r clefyd. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o brofiadau systemau llywodraethu TB buchol yn Awstralia a Seland Newydd. Mae'r rhain yn amlygu cyfraniad uniongyrchol aelodau'r diwydiant ffermio i gyflwyno newidiadau i'r ffordd y rheolodd y llywodraeth TB buchol. Arweiniodd y cyfranogiad hwn at fwy o gyfranogiad yn y gwaith o lunio polisiau, cyfraniadau ariannol gan bob un sy'n fuddiolwr i raglenni dileu TB buchol, e.e. ffermwyr a'r llywodraeth, a gweithredu ymyriadau llwyddiannus, megis datblygu Masnachu yn Seiliedig ar Risg.

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o Fwrdd y Rhaglen Dileu TB a'r tri Bwrdd Cyflawni rhanbarthol. Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn sut y gellir datblygu trefniadau llywodraethu yng Nghymru i gefnogi'r broses ddileu. Yn benodol, byddai gennym ddiddordeb yn eich barn ar faint ac effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth i symud yr agenda hon ymlaen.

Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb hefyd mewn p'un a ydych yn ystyried bod awydd ymhlith y gymuned amaethyddol, gweithwyr proffesiynol ym maes milfeddygaeth a sefydliadau cynrychioliadol i gymryd rôl arweinyddiaeth gryfach. Pa welliannau neu newidiadau yn y trefniadau llywodraethu presennol y byddai angen eu gwneud i annog dull o'r fath?

Yn olaf, beth yw rôl milfeddygon, ffermwyr a sefydliadau ffermio yn eich barn chi? Pa fathau o benderfyniadau y dylai rhanddeiliaid gael eu grymuso i'w gwneud?

Gadael yr Undeb Ewropeaidd

Mae'r ffigurau a ddarparwyd i'r Pwyllgor, yn ein cyfarfod ar 22 Tachwedd, yn awgrymu bod y gyfran o Filfeddygon Cymwys Tramor yng Nghymru wedi codi o 19 y cant yn 2007 i 26 y cant yn 2017. Hefyd, mae 80 y cant o weithlu milfeddygol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn dod o dramor. Felly, gallai gostyngiad yn nifer y milfeddygon tramor sy'n cynnal profion TB o ganlyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd gael effaith sylweddol ar y gallu i gyflwyno Rhaglen Dileu TB Buchol Llywodraeth Cymru.



Pa asesiad a wnaed o effaith bosibl gadael yr Undeb Ewropeaidd ar y rheini yn y gweithlu milfeddygol sy'n gysylltiedig â swyddogaethau TB buchol? A oes trefniadau ar waith i fonitro nifer y milfeddygon tramor sy'n gweithio yng Nghymru a pha gynlluniau sydd gennych i liniaru yn erbyn unrhyw effaith negyddol bosibl?

Un dull posibl fyddai annog cadw neu ddychwelyd milfeddygon Cymreig i gymunedau gwledig. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech roi gwybodaeth am unrhyw asesiad a wnaethoch o botensial mentrau fel cynllun bond.

Adrodd ar gynnydd

Mae Cynllun Cyflawni Rhaglen Dileu TB Cymru yn nodi fel a ganlyn:

Bydd y Cynllun Cyflawni hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn ôl yr angen. Bydd y ffiniau ar gyfer yr Ardaloedd TB yn cael eu hadolygu maes o law hefyd, a bydd newidiadau'n cael eu gwneud ar adegau priodol.

Bu peth trafodaeth yn Siambr y Cynulliad ynghylch y broses adrodd yn ymwneud â'r mater hwn. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe byddech yn ystyried adrodd i'r Pwyllgor ym mis Hydref 2018 ar gynnydd ac, o hyn ymlaen, yn flynyddol. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallai eich adroddiad fynd i'r afael â chynnydd ar lefel rhaglen ac ar effeithiolrwydd mesurau penodol, megis yr ymagwedd wirfoddol tuag at Brynu Gwybodus a'r ymagwedd ranbarthol tuag at reoli clefydau.

Ni fyddai hyn, wrth gwrs, yn eich atal rhag adrodd i'r Cynulliad yn gyffredinol. Mewn gwirionedd, byddai'n well gan y Pwyllgor i'r adroddiad blynyddol ar gynnydd gael ei drafod yn amser y Llywodraeth yn y Cyfarfod Llawn. Mae'r Pwyllgor hefyd yn edrych ymlaen at gael eich adroddiad ar gynnydd ar ôl 12 mis cyntaf y rhaglen symud moch daear penodol (argymhelliad 8 adroddiad y Pwyllgor.)



Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cais hwn am wybodaeth erbyn 5 **Chwefror 2018**. Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb a chael y cyfle i drafod hyn a materion cysylltiedig â chi maes o law.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Mike Hedges". The signature is written in a cursive style with a large initial 'M'.

Mike Hedges AC

Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

